

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2000 No. 1163

**Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan
(Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000**

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “blwyddyn” (“*year*”) yw blwyddyn ariannol daladwy ;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr “gallu cynhyrchu net a ddatgenir” (“*declared net capacity*”), mewn perthynas â pheiriannau cynhyrchu yw'r cynhyrchiad uchaf o drydan (wrth y terfynellau cynhyrchu) y gellir ei gynnal am gyfnod amhenodol, o dan yr amodau perthnasol, heb achosi niwed i'r peiriannau, gan dynnu o'r gallu cynhyrchu hwnnw yr hyn a ddefnyddir gan y peiriannau, ac a fynegir mewn megawatiau hyd at y ganfed ran agosaf o fegawat;

(At ddibenion y diffiniad hwn ar gyfer y peiriannau cynhyrchu hynny a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw drwy losgi olew neu lo, yr amodau perthnasol yw bod y dŵ r sy'n mynd i'r system oeri yn un deg naw gradd Celsius os caiff y dŵ r oeri ei gylchredeg ar yr hereditament i'w aildefnyddio yn y system oeri, neu ym mhob achos arall deg gradd Celsius.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw gwynt, mae cyflymder y gwynt yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw dŵ r, mae llif y dŵ r yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer pob math arall ar beiriannau cynhyrchu yr amodau perthnasol yw, bod tymheredd yr awyr yn lleoliad yr hereditament yn ddeg gradd Celsius ac mae gwasgedd yr aer yn 1013mbar); ac

ystyr “peiriannau cynhyrchu” (“*generating plant*”), mewn perthynas â hereditament, yw peiriannau yn yr hereditament neu arno a ddefnyddir neu sydd ar gael ar gyfer eu defnyddio i'r diben o gynhyrchu trydan.